OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1020 (Cy. 180)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018 (Dirymu) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mehefin 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018 (Dirymu) 2019 a daw i rym ar 17 Mehefin 2019.

### Dirymu

**2.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glan-bad i Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018(**2**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 2018/747 (Cy. 145)

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mehefin 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru